

Ffonio 999



Cam allweddol:

Ffonio 999 mewn argyfwng a bod mor gywir ag y gallwch wrth ateb y cwestiynau.

Gwybod beth i'w wneud:

Mae rhywun yn sâl neu wedi'i anafu ac mae angen cymorth meddygol brys arno.

Camau i'w cymryd:

Ffoniwch 999.

Gwrandewch ar y sawl sydd wedi ateb y ffôn ac atebwch ei gwestiynau mor gywir ag y gallwch.

Os bydd modd, arhoswch gyda'r person y mae angen help arno wrth aros am yr ambiwlans.



Gwybodaeth ategol:

Cyn gynted ag y byddwch chi'n ffonio 999, bydd gennych chi dîm o bobl i'ch helpu chi:

- Mae'r ambiwlans ar ei ffordd.
- Gall y triniwr galwadau brys roi gwybod i chi pa gamau i'w cymryd.